



Gŵyl Undod 2022

Galwad am Gynigion ar gyfer Comisiwn

Mae Celfyddydau Anabledd Cymru wrth ei fodd bod yr Wyl Undod wedi gallu dychwelyd eleni a chynnig y cyfle gwych hwn i artistiaid byddar, anabl a niwrowahanol ledled Cymru.

“Gŵyl Undod Hijinx yw un o wyliau celfyddydol cynhwysol mwyaf Ewrop a’r unig un o’i math yng Nghymru. Cafodd ei chreu yn 2008 i roi cyfle i artistiaid anabl ac artistiaid ag anabledd dysgu a/neu artistiaid awtistig berfformio ar lwyfan proffil uchel.”

I gael gwybodaeth am wyliau blaenorol ewch i:

<https://www.hijinx.org.uk/unity-festival/>

Rydym yn chwilio am gynigion ar gyfer darn cyffrous ac arloesol o gelf anabledd y gellir ei gyflwyno yn ystod yr Wyl Undod ym mis Mehefin. Gall fod yn berfformiad byw sy’n addas ar gyfer gofod dan do neu yn yr awyr agored, neu’n ddarn digidol y gellir ei ffrydio’n fyw yn ystod yr Wyl. Nid oes cyfyngiad ar nifer y bobl a all fod yn rhan o’r cynnig, ond disgwyliwn weld dull realistig mewn perthynas â’r hyn y gellir ei greu gyda’r ffi sydd ar gael. Mae’r Wyl Undod yn ddathliad, a hoffem i’r gwaith adlewyrchu’r cyfraniad cadarnhaol y mae artistiaid anabl yn ei wneud i ddiwylliant Cymru.

Ffi: £5,000

Dyddiadau:

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 14 Mawrth 2022

Bydd y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi ar: 21 Mawrth

Rhaid i'r gwaith gael ei gwblhau ar gyfer yr Ŵyl, sy'n cael ei chynnal rhwng 20 Mehefin a 2 Gorffennaf 2022

Y thema i ymateb iddi: **Cysylltiadau**

Meini Prawf Dethol:

- Bydd y gwaith yn cael ei asesu yn ôl y modd y mae'n bodloni'r briff ac o ran a yw'n realistig o ystyried y ffi sydd ar gael.
- Bydd y panel dethol yn chwilio am waith sy'n tynnu sylw at rai o'r materion mawr sy'n effeithio ar fywydau pobl anabl.
- Bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

Gwneud Cais

Anfonwch gynnig atom naill ai mewn dim mwy na 500 o eiriau neu ar ffurf fideo o hyd cyfatebol, ynghyd ag unrhyw ddelweddau o'r gwaith neu ddolenni i wefannau.

Gofynnir i chi hefyd ddarparu amlinelliad byr o'r costau, gan gynnwys costau mynediad i'r gynulleidfa.

I anfon eich cynnig atom (naill ai'n ysgrifenedig neu ar ffurf fideo) cliciwch ar y ddolen isod:

<https://airtable.com/shrCl6QARLhYHGNro>

Os hoffech anfon ffilm fideo o waith blaenorol, anfonwch enghraifft atom nad yw'n ddim mwy na phum munud o hyd.

Dylai'r holl waith fod yn hygyrch: cysylltwch â Celfyddydau Anabledd Cymru am ragor o wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch neges e-bost at sara@dacymru.com

